



# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio
## Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

*'Blas ar Gymru'*



Dathlu bwyd Cymreig a meithrin talent ifanc



gŵylgyfoeth Cyfoethogi Dysgu enrichfest Enriching Learning

YSGOLION SIR DDINBYCH "Dewch i Goginio" DENBIGHSHIRE SCHOOLS "Come & Cook"

BLASUS TASTY

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# DEWCH I GOGINIO 2020

**Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych**

## 'Blas ar Gymru'

### Rhagarweiniad

Dros y 4 blynedd diwethaf, mae cystadleuaeth coginio blynyddol Sir Ddinbych ar gyfer ysgolion wedi denu a meithrin talent ymysg pobl ifanc. Gyda chymorth noddwyr a chefnogwyr tebyg, mae'r gystadleuaeth wedi mynd o nerth i nerth.

Eleni, yn unol â 'Chanllaw Bwyta'n Iach' i hyrwyddo bwyta'n iach, rydym yn ail-frandio'r gystadleuaeth dan y teitl 'Dewch i Goginio'. Ein nod yw annog cogyddion ifanc i ddarganfod eu bwyd lleol a datblygu sgiliau coginio'r genhedlaeth nesaf.

Mae Cystadleuaeth Dewch i Goginio Sir Ddinbych yn agored i blant rhwng 7 ac 14 oed (Blynyddoedd 3-8) mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig. Y briff yw gweithio i greu bwydlen dau gwrs gan ddefnyddio gymaint o gynnyrch lleol â phosibl. Mae'r gystadleuaeth yn herio disgyblion i ddysgu am ffynhonnell eu bwydydd ac ystyried materion allweddol mewn perthynas â thymhorau a chynaliadwyedd. Cynhelir Rownd Gyntaf y gystadleuaeth yn yr ysgol, a'r dyddiad cau yw **Dydd Gwener 12 Mehefin 2020.**

**Y thema eleni yw 'Blas ar Gymru'**
Mae gan Gymru hanes chwedlonol nodweddiadol sy'n deillio'n ôl i ddyddiau Brenin Arthur, mae hi'n wlad hyfryd ac unigryw tu hwnt. Mae iddi boblogaeth o dair miliwn o bobl, arwynebedd o 8,000 milltir sgwâr, un o'r ieithoedd hynaf yn y byd, diwylliant bywiog a thirwedd odidog. Mae cyfoeth o harddwch ac antur yng Nghymru, yn ogystal â ryseitiau di-ri i fodloni eich blasbwyntiau a llenwi llyfr o ryseitiau.

Mae prydau traddodiadol Cymreig yn deillio o ddiet traddodiadol gweithiwr: pysgotwr, ffarmwr, chwarelwr neu lafurwr. Felly, mae llysiau o'r ardd, pysgod o afonydd, llynnoedd neu'r môr, cig o fferm deuluol, ac ati, yn rhan allweddol o goginio tarddiadol Cymreig. Defnyddir llawer iawn o gig oen a chig eidion, ynghyd â physgod ffres, megis eog, brithyll, cranc gwyn, cimychiaid a chocos.

Bydd ein Cystadleuaeth Dewch i Goginio Ysgolion Uwchradd 2020 – 'Blas ar Gymru' – felly'n amlygu ac yn dathlu cynnyrch a phrydau Cymreig lleol traddodiadol.

Diolch am eich holl waith caled ac am gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Dewch i Goginio 2020.

Rydym yn edrych ymlaen yn arw at weld eich syniadau a beirniadu eich gwaith.

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## ‘Blas ar Gymru’

### Ysbrydoliaeth...

Mae’r gystadleuaeth yn cynnwys **2** rownd:-

**<u>Rownd 1</u>** ***(Rownd yr Ysgol):*** **‘Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig’ -** *Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws.*

Bydd cogyddion ifanc yn paratoi pryd sawrus dynodedig ac yn ychwanegu eu tro ‘Cymreig’ eu hunain i greu argraff dda ar y beirniaid. Bydd yn rhaid i’r cogyddion ifanc gyfrifo’r costau.

**<u>ROWND 2</u>** ***(Rownd Derfynol)*****: ‘Pastai Pendramwnwgl Moel Famau’ -** ***Her Dechnegol,*** lle byddwn yn darparu **<u>cyfarwyddiadau</u>** a **<u>chynhwysion</u>** i chi ar y diwrnod.

**<u>Rownd 1</u>** **(*Rownd yr Ysgol*): ‘Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig’ -** *Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws.*

Yn ystod y cyfnod rhwng **Ddydd Llun 2 Mawrth - Ddydd Gwener 12 Mehefin 2020,** bydd Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych yn cynnal eu cystadleuaeth coginio eu hunain yn fewnol, lle bydd cogyddion ifanc yn paratoi eu **‘Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig’** - *Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws.* Gall cogyddion ifanc archwilio a datblygu sgiliau gwerthfawr ac ymarferol a chael pleser yn coginio eu **‘Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig’** - *Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws*, wedi’i ysbrydoli gan Gymru a chwedl y ddraig goch.

**<u>Ystyriaethau’r beirniaid</u>**

Bydd y beirniaid yn ystyried y canlynol yn ystod y broses o baratoi’r pryd hwn:-

- Defnydd cywir a diogel o’r offer;
- Pwyso a mesur y cynhwysion yn gywir;
- Arddangos sgiliau torri diogel a chywir gan ddefnyddio'r technegau bont a chrafanc yn briodol;
- Defnydd diogel o’r hob a’r popty gan ddilyn y rheolau diogelwch cywir;
- Blas a gwead y pryd; a yw’r cynhwysion yn cyd-fynd yn dda â’i gilydd;
- Cyflwyniad cyffredinol y pryd, hynny ydi, eich bod wedi defnyddio eich dychymyg ar gyfer y garnais (sicrhewch eich bod wedi gwneud gwaith ymchwil i beth allwch chi eu defnyddio);
- Cyfrifiad o gost cyffredinol y pryd.

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

**Beirniadu**

Bydd ysgolion yn beirniadu'r cystadleuwyr yn fewnol ac yn dewis **2 'Gogydd y Ddraig'** i gymryd rhan yn **Rownd Derfynol Dewch i Goginio 2020**, yn **Ysgol Uwchradd Dinbych,** fore **Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2020** *(amseroedd i'w cadarnhau).*

**Rownd 2 - 'Pastai Pendramwnwgl Moel Famau'** ***(Her Dechnegol)***

Yn ystod sesiwn bore **Rownd Derfynol Cystadleuaeth Dewch i Goginio 2020** yn **Ysgol Uwchradd Dinbych,** a gynhelir **Ddydd Mercher 1 Gorffennaf 2020**, bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn ***'Her Dechnegol'*** 2½ awr na fyddant wedi'i gweld o'r blaen, a ddewisir gan diwtoriaid profiadol iawn. Bydd cystadleuwyr yn defnyddio rysáit dynodedig a chynhwysion a gaiff eu darparu ar y diwrnod er mwyn cwblhau'r ***Her Dechnegol***.

**Sut i Gofrestru**

Cofrestrwch eich diddordeb i gymryd rhan yng nghystadleuaeth **Dewch i Goginio 2020: 'Blas ar Gymru' Sir Ddinbych: i blant rhwng 11 ac 14 oed** dros e-bost at **paula.roberts@sirddinbych.gov.uk / sarah.dixon@sirddinbych.gov.uk** erbyn **Dydd Gwener 12 Mehefin 2020.**

**Beth allai'r cogyddion ifanc ei ennill?**

- Bydd **2 'Gogydd y Ddraig'** yn cael eu dewis i gynrychioli eu hysgol yn **Rownd Derfynol Dewch i Goginio 2020,** a gynhelir fore **Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2020**, yn **Ysgol Uwchradd Dinbych** *(amseroedd i'w cadarnhau)*.
- Bydd enillydd cyffredinol **Dewch i Goginio 2020: 'Blas ar Gymru': i Blant rhwng 11 ac 14 oed** yn derbyn tlws.
- Bydd pawb sy'n cymryd rhan (Rowndiau'r Ysgol a/neu'r Rowndiau Terfynol) yn derbyn ***Tystysgrif o Lwyddiant.***

**Pryd fyddwch chi'n cyhoeddi enillwyr cystadleuaeth 2020?**

- Byddwn yn cyhoeddi'r enillydd cyffredinol **Ddydd Mercher 1 Gorffennaf 2020**, yn dilyn y rownd derfynol.

**Beth am ddefnyddio Trydar?**

Mae Trydar yn ffordd wych o rannu a darganfod beth sy'n mynd ymlaen. Felly beth am ymuno â'r sgwrs **#DewchiGoginio @cyfoeth_enrich.** Cofiwch rannu eich lluniau a/neu fideos hefyd.

# DEWCH I GOGINIO 2020

**Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych**

## 'Blas ar Gymru'

**Rownd 1** ***(Rownd yr Ysgol)***
**'Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig'**
*Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws*

Mae gofyn i chi goginio cawl cennin a thatws wedi'i weini â sgonsen gaws. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio bob un o'r cynhwysion ar y rhestr, ond mae croeso i chi ychwanegu cynhwysyn ychwanegol o'ch dewis chi a rhoi garnais ar yr ochr.

**Sgons Caws** (cynhwysion gorfodol) - Yn gwneud 6-8 sgonsen, yn dibynnu ar faint y torrwr a ddewisir

- 250g o flawd codi
- 1 x llwyaid 5ml o bowdwr mwstard
- 40g o fenyn neu fraster/bloc pobi
- 75g o gaws caled
- 125ml llefrith hanner sgim

**Cynhwysion ychwanegol dewisol**
- Hanner llwy de o berlysiau
- 1 nionyn (wedi'i dorri'n fân)

**Garnais**
Sicrhewch eich bod yn defnyddio garnais sy'n addas i'r pryd i greu argraff dda ar y beirniaid - peidiwch ag anghofio gwneud eich gwaith ymchwil!

**Offer**
- Hambwrdd pobi
- Brwsh pastai
- Rhidyll
- Powlen gymysgu
- Gratiwr
- Bwrdd torri
- Jwg mesur
- Ysgeintiwr blawd
- Rholbren
- Torrwr sgons
- Rac oeri



# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

**Sgons Caws** -Yn gwneud 6-8 sgonsen, yn dibynnu ar faint y torrwr a ddewisir

**Dull**

- Cynheswch y popty i 220°C / marc nwy 7.
- Dylid iro neu leinio'r hambwrdd pobi.
- Hidlwch y blawd a'r mwstard i mewn i'r fowlen.
- Rwbiwch y braster i'r blawd nes y bydd yn teimlo fel briwsion.
- Gratiwch y caws.
- Ychwanegwch y caws a'i gymysgu.
- Gwnewch dwll yng nghanol y blawd a tholltwch y llaeth yn ofalus (sicrhewch eich bod yn cadw ychydig o'r llaeth).
- Cymysgwch y cynhwysion i ffurfio toes meddal.
- Rhowch ychydig o flawd ar eich arwyneb gwaith a gosod y toes arno.
- Rholiwch y toes allan nes y bydd yn tua 1½ cm o drwch.
- Siapiwch y sgons drwy ddefnyddio torrwr.
- Gosodwch y sgons ar hambwrdd pobi a brwsio eu pennau gydag ychydig o laeth.
- Pobwch am 12-15 munud nes yn frown euraidd.
- Rhowch y sgons ar rac i'w hoeri.

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

**<u>'Cawl Corsiog y Ddraig'</u>** - *Cawl Cennin a Thatws* (cynhwysion gorfodol)

- 50g o fenyn
- 450g o datws
- wedi'u pilio a'u torri i ddarnau 1cm (ceisiwch ddefnyddio Golden Wonders neu Kerr Pinks)
- 1 nionyn bach
- 3 cenhinen
- 850ml o stoc cyw iâr neu lysiau
- 142ml o hufen chwipio mewn carton
- 125ml o laeth cyflawn
- Sesnin

**<u>Garnais</u>**

- y rhan gwyn o genhinen
- telpyn bach o fenyn
- cennin sifi wedi'i thorri'n fân



**<u>Offer</u>**

- Sosban
- Bwrdd torri
- Cyllell cog
- Llwy bren
- Blendiwr
- Plât

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

**'Cawl Corsiog y Ddraig'** - *Cawl Cennin a Thatws*
*(Ar gyfer 4 person)*

**Dull**

1. Dylid pilio a thorri'r tatws i giwbiau 1cm, pilio a thorri'r nionod a golchi a sleisio'r cennin.

2. Toddwch 50g o fenyn mewn sosban, ychwanegwch y tatws, nionyn a'r cennin. Trowch y llysiau uchod yn y menyn gan sicrhau eu bod wedi'u gorchuddio mewn menyn.

3. Ychwanegwch halen a phupur wedi'i falu'n ffres a'u troi eto. Rhowch ddisg o bapur gwrthsaim (a elwir yn cartouche gan gogyddion) ar ben y llysiau i gadw'r stêm i mewn), a gorchuddiwch y sosban â chaead.

4. Coginiwch nhw dros wres isel am 10 munud, neu nes bydd y llysiau yn feddal ond heb eu brownio. Tynnwch y caead oddi ar y sosban a thynnu'r papur. Tolltwch 850ml o'r stoc cyw iâr neu lysiau, codwch y dŵr i'r berw a'i fud-ferwi nes y bydd y llysiau wedi'u coginio – tua 5 munud.

5. Cymysgwch y gymysgedd yn y blendiwr nes y bydd yn hollol llyfn, gwnewch ychydig ar y tro os oes angen, blaswch ac ychwanegwch sesnin os bydd angen. Rhowch y cawl mewn sosban lân a chymysgwch dri chwarter o'r carton 142ml o hufen chwipio a 125ml o laeth cyflawn.

6. Ail-gynheswch y cawl a'i adael i fud-ferwi'n araf (ychwanegwch ychydig o stoc ychwanegol os ydych yn teimlo bod y cawl ychydig yn drwchus), a tholltwch y cawl i fowlenni cynnes.

7. I gwblhau'r cawl, torrwch y darn gwyn o'r genhinen yn fân iawn a'i goginio'n araf gyda thelpyn o fenyn poeth am ychydig funudau nes y bydd yn feddal, ond heb ei frownio.

8. Tolltwch gweddill yr hufen ym mhob bowlen, ychwanegwch bentwr bychan o'r cennin â menyn, ac ychydig o gennin sifi a phupur du. Dylid ei weini ar unwaith.

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

**Rownd 1** ***(Rownd yr Ysgol)***
**'Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig'**
*Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws*

**Costau'r Cynhwysion**

**Llysiau**

| | |
|---|---|
| Tatws | 1000g am £1.00 |
| Cenhinen | 500g am £1.00 |
| Nionyn | Pecyn o 3 am 65c |
| Cennin Sifi Ffres | 20g am 75c |

**Cynnyrch Llaeth**

| | |
|---|---|
| Caws Cheddar | 400g am £2.00 |
| Menyn | 100g am 40c |
| Llaeth hanner sgim | 2.27 litr am £1.10 |
| Llaeth Cyflawn | 2.27 litr am £1.10 |
| Hufen Chwipio | 330ml am £1.10 |

**Cwpwrdd Storio**

| | |
|---|---|
| Blawd codi | 1.5KG am 85c |
| Powdr Mwstard | 1.5KG am 85c |
| Ciwb Stoc - Cyw Iâr | 12 ciwb stoc am £1.60 |
| Ciwb Stoc - Llysiau | 12 ciwb stoc am £1.60 |
| Pupur Wedi'i Falu | 10g am 26c |
| Perlysiau Cymysg Wedi'u Sychu | 14g am 85c |

**Cofiwch ymchwilio i gost y garnais yr ydych wedi penderfynu ei ddefnyddio.**

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

### CYFRIFIADAU COSTAU

| Enw: | Ysgol: |
|---|---|

**Rownd 1 (*Rownd yr Ysgol)*** - Dylid rhestru'r holl gynhwysion sy'n orfodol ac unrhyw gynhwysion ychwanegol rydych wedi'u defnyddio.

**'Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig' -**
*Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws*

| Cynhwysion | Cost |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Beth yw cyfanswm cost y rysáit? ___________________

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

### RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH

### 1. Y Gystadleuaeth

Mae'r gystadleuaeth wedi'i rhannu yn 2 rownd:

**Rownd 1 - Rownd Ysgol**
**Rownd 2 - Rownd Derfynol**

Yn y Rownd Gyntaf - **Rownd yr Ysgol**, bydd gofyn i gystadleuwyr goginio un pryd o fwyd sawrus yn unig. Bydd hyn yn helpu i arbed amser a chostau.
Yn Rownd 2 - **Y Rownd Derfynol**, bydd gofyn i gystadleuwyr goginio'r ***Her Dechnegol.*** Darperir cyfarwyddiadau a'r **holl** gynhwyson ar y diwrnod.

### 2. Y Ryseitiau

Darllenwch y ryseitiau yn ofalus iawn, gan nodi'r cynhwysion a'r offer sydd ei angen ac unrhyw gyfarwyddiadau arbennig.
Mae'r ryseitiau yn nodi rhai o'r pwyntiau y bydd y beirniaid yn chwilio amdanynt yn ystod y broses o baratoi'r pryd.
**Mae'n rhaid i chi baratoi ffurflen gostau ar gyfer eich pryd.**

### 3. Cynhwysion ac Offer

- Bydd yn rhaid i gystadleuwyr ddarparu'r cynhwysion ar gyfer **Rownd 1 - Rownd yr Ysgol.**
- Yn **Rownd 2 - y Rownd Derfynol, bydd yr holl gynhwysion ac offer** ar gael yn yr ysgol sy'n cynnal y gystadleuaeth, ond bydd yn rhaid i chi ddarparu unrhyw gynhwysion ychwanegol i ategu at y pryd neu'r garnais.

### 4. Diogelwch Bwyd a Hylendid

- Rhaid i gystadleuwyr roi sylw arbennig i ddiogelwch a hylendid bwyd ar gyfer diogelwch personol eu hunain a phobl eraill.
- Mae golchi dwylo yn aml yn hanfodol, cyn ac yn ystod paratoi bwyd yn enwedig wrth drin cig ac wyau.
- Gorchuddiwch unrhyw glwyfau ar ddwylo gyda dresin gwrth-ddŵr glas.
- Peidiwch â chystadlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu os oes gennych chi beswch neu annwyd.
- Gwisgwch ffedog neu ddillad cogydd gwyn glân.
- Clymwch eich gwallt yn ôl os yw'n hir a diogelu unrhyw wallt rhydd neu ffrinj oddi wrth y wyneb.
- Peidiwch â gwisgo paent ar eich ewinedd.
- Tynnwch unrhyw emwaith, fel modrwyau a chlustdlysau.
- Gwisgwch esgidiau addas. Peidiwch â gwisgo sodlau uchel, sandalau agored, 'fflip-fflops' neu esgidiau eraill sydd ddim yn gorchuddio'r traed yn gyfan gwbl.

# DEWCH I GOGINIO 2020

## Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych

## 'Blas ar Gymru'

### RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH (PARHAD)

- Dylai cynhwysion darfodus gael eu storio ar 5°C neu is.
- Dylai cystadleuwyr ddefnyddio technegau torri diogel megis y 'bont' a'r 'grafanc' wrth baratoi cynhwysion. I gael gwybod mwy am dechnegau torri/paratoi yn ddiogel ewch i'r wefan Sgiliau Cyflym.
- (http://www.focusonfood.org/sgiliau_cyflym - Welsh)
  (http://www.focusonfood.org/skills_snippets - English)
- Peidiwch â gadael eitemau siarp mewn powlenni golchi llestri neu lle gallant achosi niwed i bobl eraill.
- Os bydd unrhyw gystadleuydd angen meddyginiaethau hanfodol yn ystod y gystadleuaeth, mae'n gyfrifoldeb arnyn nhw i sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei weinyddu gan eu hunain neu gan oedolyn dynodedig priodol.
- Peidiwch â chyffwrdd offer trydanol gyda dwylo gwlyb neu seimllyd (llithrig). Defnyddiwch yr offer gyda gofal a dan oruchwyliaeth y beirniaid

### 5. Yn ystod y Gystadleuaeth

- Bydd y rownd derfynol yn para 2 awr a hanner, bydd hyn yn cynnwys 15 munud i ddarllen y rysáit a gwneud nodiadau a 15 munud ychwanegol i gasglu offer a chynhwysion.
- Yr amser ar gyfer Rownd 1 (ysgol) fydd un awr.
- Os ydych yn cael problemau yn ystod y gystadleuaeth (fel camgymeriad mawr, offer diffygiol neu os ydych yn teimlo'n sâl), yna mae'n rhaid i chi ddweud wrth y beirniad/beirniaid ar unwaith.
- Golchwch wrth fynd yn eich blaen a chadwch eich ardal goginio yn daclus.
- Rhaid i gystadleuwyr fod yn ofalus wrth ddefnyddio poptai ac offer trydanol cludadwy.

### 6. Beirniadu

- Bydd y beirniadu'n digwydd ym mhob un o'r rowndiau gan ddefnyddio'r ffurflen beirniadu a ddarperir.
- Byddwch yn cael eich barnu ar y canlynol: -
  - ✓ Defnydd cywir a diogel o'r offer;
  - ✓ Pwyso a mesur y cynhwysion yn gywir;
  - ✓ Arddangos sgiliau torri diogel a chywir gan ddefnyddio'r technegau bont a chrafanc yn briodol;
  - ✓ Defnydd diogel o'r hob a'r popty gan ddilyn y rheolau diogelwch cywir;
  - ✓ Blas a gwead y pryd; a yw'r cynhwysion yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd;
  - ✓ Cyflwyniad cyffredinol y pryd, hynny ydi, eich bod wedi defnyddio eich dychymyg ar gyfer y garnais (sicrhewch eich bod wedi gwneud gwaith ymchwil i beth allwch chi eu defnyddio);
  - ✓ Cost gyffredinol y pryd.

Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac yn anffodus nid oes beirniadaethau ysgrifenedig neu daflen farciau ar gael i gystadleuwyr unigol.

YSGOLION SIR DDINBYCH
"Dewch i Goginio"
DENBIGHSHIRE SCHOOLS
"Come & Cook"

*'Blas ar Gymru'... 11-14 oed*

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# DEWCH I GOGINIO 2020

**Cystadleuaeth Coginio Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych 'Blas ar Gymru'**
**Ffurflen Feirniadu ar gyfer Rownd 1 *(Rownd Ysgol)***

| **Enw:** | **Ysgol:** |
|---|---|

| **Rysáit** | **Cost** | **Sgiliau Paratoi & Choginio** | **Hylendid a Diogelwch** | | **Amser** | **Pryd y Rownd Gyntaf** | | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrifiadau wedi'u dangos **(5)** | Offer a'r cyfarpar cywir / gweithio mewn dilyniant rhesymegol **(5)** | Clirio yn ystod y broses goginio, cadw'r ardal waith yn daclus bob amser **(5)** | Gweithio'n ddiogel – dulliau torri cywir **(5)** | Gweithio mewn dilyniant rhesymegol a chwblhau tasgau ar amser **(5)** | Ansawdd y pryd: blas; cyfuniad o flasau, sesnad **(5)** | Ansawdd y pryd: gwead; cymysgedd o fwydydd meddal, crystiog a chrensiog **(5)** | Cyflwyniad y pryd – canolbwyntir yn bennaf ar drefniant y pryd, y garnais a'r lliwiau cyffredinol a ddefnyddiwyd **(5)** | **(40)** |
| **Rownd 1 -** 'Cawl Corsiog a Cherrig Camu Cawsiog y Ddraig' - *Cawl Cennin a Thatws gyda Sgonsen Gaws.* | | | | | | | | | |

**Sylwadau:**

*Dathlu Bwyd Cymreig a Meithrin Cogyddion Ifanc...*